north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 1 Chwefror 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 1 Chwefror 2019

---

**PWNC**

Eitem 5:MATER BRYS - PROSES RECRIWTIO AR GYFER CYFARWYDDWR RHAGLEN

---

**PENDERFYNIAD**

1. Dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor i;

   (a) baratoi swydd-ddisgrifiad a manylion person ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen,
   (b) cynnal proses arfarnu swyddi yn unol â threfniadau Cyngor Gwynedd ar y swydd er mwyn gosod y cyflog,
   (c) symud ymlaen i hysbysebu'r swydd.

2. Bod adroddiad yn argymell y drefn benodi o hynny ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyd-Bwyllgor.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O ddilyn y drefn arferol, byddai manylion y broses recriwtio yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth ac felly'n ychwanegu at yr amserlen yn erbyn y rhaglen waith.

Roedd y Cadeirydd yn fodlon i'r mater yma gael ei ystyried yn fater brys oherwydd ardrawiad a risgiau oediad mewn penodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar y Cynllun Twf.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Dim.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Rhoddwyd arweiniad i'r Cyd-Bwyllgor gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid yn y cyfarfod.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 1 Chwefror 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 1 Chwefror 2019

---

**PWNC**

Eitem 6:RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD UCHELGAIS A THREFNIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

---

**PENDERFYNIAD**

(a) Cytuno ar y rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf.
(b) Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd tan ddiwedd y flwyddyn galendr.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, fel y'i ffurfir o'r newydd, raglen waith glir i arwain gweithgareddau allweddol dros y 6-9 mis nesaf. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gomisiynu'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol gyda chynllun gwaith pwrpasol er mwyn cydlynu'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth Twf. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfeiriad cytûn ar gyfer gweithgareddau'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol, gyda cherrig milltir ac amserlenni clir, a fydd yn help wrth reoli disgwyliadau

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Dim.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---